# Gwerthusiad o'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – Adroddiad Interim

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 69/2015

Mae'r gwerthusiad wedi'i seilio ar raglen 3 blynedd o weithgaredd gwerthuso a gynlluniwyd i ymchwilio sut y mae'r RhLIRhC wedi ei dehongli a sut mae'r gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen yn cael eu gweithredu.Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yma yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf y gweithgaredd gwerthuso, a gynhaliwyd gan y contractwyr SQW rhwng mis Medi 2013 a mis Rhagfyr 2014, gan ddefnyddio nifer o ffynonellau tystiolaeth gwahanol yn cynnwys: cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol, e-arolwg a anfonwyd at bob uwch arweinydd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, ac e-arolwg gyda phob Athro Llythrennedd Rhagorol a/neu Athro Rhifedd Rhagorol a nodwyd, astudiaethau achos seiliedig ar ardal yn cynnwys ymweliadau astudiaethau achos â 20 ysgol ar draws pedwar ALl a dwy astudiaeth achos thematig yn archwilio effaith y RhLIRhC ar athrawon newydd gymhwyso ac effaith y diwygiadau i ddarpariaeth llythrennedd a rhifedd o fewn hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon (HAGA).

Mae gwaith gwerthuso yn dal i fynd rhagddo a bydd yn parhau yn 2016.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau**:

- Roedd tystiolaeth o lefel ymgysylltu uchel ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol o ran ceisio gweithredu'r FfLlRh.
- Arweiniodd cyflwyniad y FfLlRh a Phrofion Cenedlaethol at newidiadau mewn cynllunio strategol yn y rhan fwyaf o leoliadau.
- Roedd ymwybyddiaeth a'r gyfradd manteisio ar y Rhaglen Gymorth Genedlaethol (RhGG) yn uchel ymhlith arweinwyr ysgol a holwyd, er teimlwyd bod diffyg eglurder ynglŷn â chymhwyster ysgolion arbennig ar y dechrau.
- Roedd ymwybyddiaeth a'r gyfradd manteisio ar y canllawiau a'r adnoddau i gynorthwyo ysgolion i weithredu'r Profion Cenedlaethol yn gymharol uchel ymhlith ysgolion yr astudiaeth achos.
- Roedd cytundeb cyffredinol ynglŷn â'r angen i gyflwyno dull mwy trawsgwricwlaidd ar gyfer addysgu a dysgu llythrennedd a rhifedd. Mae'r strategaethau a ddefnyddiwyd gan ysgolion cynradd ac uwchradd wedi amrywio'n sylweddol.
- Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod llawer o ysgolion wedi gwneud cynnydd mewn gweithredu dull mwy trawsgwricwlaidd, er, efallai nad yn syndod, mynegodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr addysg proffesiynol bod angen mwy o waith cyn y gellir gwreiddio'r dull yn llawn.

**Canfyddiadau pellach**

- Mae'n ymddangos y bu'r FfLlRh yn fwy dylanwadol o ran cynllunio strategol na'r Profion Cenedlaethol, a ddefnyddiwyd yn fwy er mwyn asesu cynnydd dysgwyr.
- O ran y Profion Cenedlaethol mae'n galonogol nodi bod uwch arweinwyr mewn ysgolion wedi mynegi eu bod yn ymwrthod â mabwysiadu dulliau a allai annog 'addysgu ar gyfer y profion'.
- Roedd ymwybyddiaeth o'r cwrs Meistri mewn Ymarfer Addysg (MEP) yn uchel ymhlith yr athrawon oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar a holwyd, a'r ysgolion a oedd yn eu cyflogi.
- Roedd ymarferwyr yn teimlo mai rhwystr i weithrediad y FfLlRh a'r Profion Cenedlaethol oedd yr hyn yr oeddent yn ei ystyried yn ddiffyg canllawiau cychwynnol ynglŷn â sut yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt eu rhoi ar waith a chefnogaeth i'w helpu i wneud hynny.
- Mae'n ymddangos bod cyflwyniad y Profion Cenedlaethol wedi cael effaith ar brosesau gweinyddol mewn ysgolion (yn arbennig yr angen i ysgolion gefnogi'r gwaith o farcio a chymedroli sgriptiau'r profion)
- Mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw effaith y Profion Cenedlaethol ar ymarfer addysgeg, er bod rhai newidiadau yn amlwg (yn arbennig o ran cynllunio datblygu ysgol).
- Roedd yr holl ysgolion y gwnaethom siarad â hwy wedi cymryd camau i wreiddio'r FfLlRh a'r Profion Cenedlaethol mewn prosesau gweinyddol.
- Mae dulliau cyffredin ar gyfer ceisio cefnogi dysgu ar draws y cwricwlwm wedi cynnwys:
    - ailfapio cwricwlwm yr ysgol er mwyn cefnogi'r FfLlRh
    - newidiadau i gynllunio gwersi er mwyn hybu cynnwys tasgau llythrennedd a/neu rhifedd ar draws y cwricwlwm
    - canolbwyntio mwy ar ddatblygu a chyflawni tasgau trawsgwricwlaidd neu 'Dasgau Cyfoethog'.
- Mewn Canolfannau HAGA, cyplyswyd yr awydd i annog myfyrwyr HAGA i fabwysiadu dull mwy trawsgwricwlaidd i'w haddysgu gydag angen canfyddedig i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd personol staff a myfyrwyr. Mae canolfannau wedi ymateb i'r blaenoriaethau hyn mewn nifer o ffyrdd:
    - newidiadau i weithgareddau datblygu gweithlu presennol
    - newidiadau i ganllawiau sy'n

    rheoli asesiad myfyrwyr, a

    - blaenoriaethu datblygiad eu sgiliau llythrennedd a rhifedd personol ac ansawdd eu haddysgu llythrennedd a rhifedd

- Lle mae ysgolion wedi cyrchu cefnogaeth gan arbenigwyr pwnc RhGG, teimlwyd bod y gefnogaeth wedi bod o ansawdd da ac wedi bod yn effeithiol o ran eu cynorthwyo i ymateb i gyflwyniad y FfLlRh yn benodol.
- Croesawodd y rhan fwyaf o ysgolion gefnogaeth gan yr RhGG, ond roeddent yn teimlo nad oedd wedi bodloni eu disgwyliadau'n llwyr.

- Nid oedd disgwyl ar y cam cynnar hwn y byddai tystiolaeth gadarn ar gael i ddangos bod cyflwyniad y FfLlRh a'r Profion Cenedlaethol wedi cefnogi gwelliant yn neilliannau disgyblion.

- Er nad oedd uwch aelodau staff mewn lleoliadau addysg yn gallu meintioli gwelliant mesuradwy mewn ansawdd addysgu llythrennedd a rhifedd yn eu hysgolion yn deillio o gyflwyniad y FfLlRh a'r profion Cenedlaethol, roedd teimlad eu bod wedi annog ysgolion i gymryd camau a fyddai'n arwain at welliant dros amser.

Awdur: SQW Consulting

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
David Roberts
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
Ffôn: 0300 062 5485
E-bost: david.roberts@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru
11 Rhagfyr 2015
ISBN: 978-1-4734-5286-2
© Hawlfraint y Goron 2015

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/